# Caerdydd Un Blaned: Her Ysgolion

## Dydd Gwener 20 Mehefin 2014
## 9.30 - 2.30 Neuadd y Sir




Mae Caerdydd yn ddinas tair planed ar hyn o bryd. Ein huchelgais yw i Gaerdydd fod yn ddinas un blaned erbyn 2050.
A yw eich ysgol chi yn barod ar gyfer Her Caerdydd Un Blaned?



Mae ysgolion cynradd Caerdydd yn cael eu gwahodd i fynychu diwrnod o weithgareddau AM DDIM ar thema Caerdydd Un Blaned. Caiff pob ysgol ddod â hyd at 6 disgybl i'r digwyddiad. Anelir y gweithdai at ddisgyblion blwyddyn 5 a all basio'r wybodaeth ymlaen i eraill.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai, heriau a digon o hwyl, ond bydd hefyd yn cyflwyno neges ddifrifol, sef bod rhaid i bob un ohonom leihau'r effaith a gawn ar y blaned.
Bydd angen i ysgolion sy'n cymryd rhan wneud rhywfaint o waith paratoi ymlaen llaw. Bydd yr holl wybodaeth honno ar gael ar ôl i chi gofrestru!



DŴR un blaned | GWASTRAFF un blaned | TRAFNIDIAETH un blaned | YNNI un blaned | BWYD un blaned | POBL un blaned | LLE un blaned

I drefnu lle ar gyfer eich ysgol, anfonwch e-bost at datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk gan nodi enw eich ysgol, enw cyswllt a chyfeiriad e-bost, cyn 21 Chwefror.
Gwefan www.caerdyddunblaned.co.uk